*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6) a (7)(n) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy.)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, o ran Cymru, Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod (EUR 2008/543).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodiad 5 i Reoliad y Comisiwn (EC) 543/2008 i ddileu'r cyfnod amser hwyaf presennol y gall dofednod a fegir yn unol â dulliau cynhyrchu maes fod â chyfyngiad ar eu mynediad i rediadau awyr agored (drwy fesurau a roddir ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid) tra caniateir parhau i farchnata eu cig, yng Nghymru, fel cig dofednod maes.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 50(6) a (7)(n) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy.)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *21 Tachwedd 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 34(1) a 50(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (**1**).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (**2**).

Yn unol ag adran 50(6) o'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

---

(**1**) 2023 dsc 4.
(**2**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Tachwedd 2025.

**Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008**

**2.**—(1) Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodiad 5, yn yr ail is-baragraff, yn lle "with a special reference to the method of rearing for the duration of the restriction but under no circumstances for more than 12 weeks" rhodder "as free-range despite any such restrictions".

*Enw*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) EUR 2008/543, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1422; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.